## CABINET Y CYNGOR 20130702

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr – Sian Gwenllian, W. Gareth Roberts, Ioan Thomas, RH Wyn Williams, Paul Thomas, Peredur Jenkins, John Wynn Jones a Brian Jones.

**Hefyd yn bresennol** – Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Llyr B Jones, (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Arwel Owen (Uwch Reolwr Tai), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Rachel Williams (Swyddog Polisi Cefnogol Pobl Hyn Dros Dro), Rhian Tomos (Arweinydd Tîm Cefnogi'r Cabinet).

### 1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU

Croesawyd aelodau'r Cabinet a'r swyddogion i'r Cyfarfod. Roedd ymddiheuriad wedi'i dderbyn gan y Cynghorydd John Williams.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol parthed eitem 7 oherwydd bod tiroedd Ymddiriedolaeth yr Harbwr Caernarfon yn rhan o gynnwys yr adroddiad a'i fod yn Ymddiriedolwr (Cadeirydd) cyfredol.

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

### 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o bwyllgorau craffu.

### 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2013 fel rhai cywir.

### 6. DATGANIAD DULYN 2013 AM DDINASOEDD A CHYMUNEDAU SY'N YSTYRIED ANGHENION POBL HŶN YN EWROP

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Wyn Williams, Aelod Cabinet Gofal.

**PENDERFYNIAD:**

Cytuno i arwyddo Datganiad Dulyn ar Gymunedau Sy'n Ystyried Anghenion Pobl Hŷn yn Ewrop 2013**.**

**7. 'LLEOEDD LLEWYRCHUS LLAWN ADDEWID'**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi.

**PENDERFYNIAD:**

Cefnogi'r bwriad o gyflwyno cais amlinellol i gronfa fuddsoddi adfywio Llywodraeth Cymru.

**8i. DEFNYDDIO'R GRONFA TRAWSNEWID A'R GRONFA BUDDSODDI I ARBED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau.

**PENDERFYNIAD:**

Diweddaru'r polisi o ran rhyddhau adnoddau o'r Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Buddsoddi i Arbed i'r canlynol –

**Cronfa Buddsoddi i Arbed a'r Gronfa Trawsnewid**

Y dylai penderfyniadau i ryddhau adnoddau o'r Cronfeydd yma gael eu gwneud gan y Cabinet yn hytrach na'r drefn arferol ar gyfer gwario o gronfeydd wrth gefn.

**8ii. ADNODDAU AR GYFER Y CYNLLUN STRATEGOL 2013/17**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng, Dyfed Edwards, yr Arweinydd.

**PENDERFYNIAD:**

Rhyddhau adnoddau unwaith ac am byth o'r Cronfeydd perthnasol ar gyfer ariannu'r cynlluniau penodol a restrwyd hyd at y symiau a argymhellir (cyfanswm £1,590,590) fel blaenoriaethau yng Nghynllun Strategol 2013/17.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.50 o'r gloch.

____________________

**CADEIRYDD**